
Ebrill 2025



# Camesgoriad, marw-enedigaeth, marwolaeth newyddanedig

Canllaw i'r cymorth ariannol sydd ar gael

Helpwr Arian

Llywodraeth y DU

**Gwneud eich arian a'ch dewisiadau pensiwn yn gliriach**

Beth bynnag eich amgylchiadau, mae HelpwrArian ar eich ochr chi. Ar-lein a thros y ffôn, rydym yn cynnig arweiniad clir sy'n gyflym i'w ddarganfod, yn hawdd ei ddefnyddio ac wedi'i gefnogi gan y llywodraeth. Gallwn hefyd eich cyfeirio at wasanaethau dibynadwy, os oes angen rhagor o gymorth arnoch.

Gallwn ni eich helpu i:

- delio â dyled
- deall eich opsiynau pensiwn
- lleihau eich gwariant a chronni cynilion
- llywio digwyddiadau bywyd megis colli swydd, tor-perthynas, ymddeol neu brofedigaeth
- cyllidebu ar gyfer biliau a phryniannau mawr
- dysgu am forgeisi a rhentu
- cael gwybod am fudd-daliadau a hawliadau ychwanegol.

Chwiliwch am HelpwrArian: **moneyhelper.org.uk/cy**

**Arweiniad diduedd am ddim**

ar-lein | dros y ffôn

Gan y

Gwasanaeth Arian a Phensiynau

# Yma i'ch helpu chi

**Gwyddom yn ychwanegol at y sioc a'r tristwch yr ydych chi'n eu profi ar hyn o bryd, fe allech chi hefyd fod yn profi straen ariannol annisgwyl.**

Er mae'n debyg mai hawlio budd-daliadau yw'r peth olaf ar eich meddwl, gall y canllaw hwn fod yn ddefnyddiol am ei fod yn dangos beth y gallech fod â'r hawl i'w dderbyn.

- Camesgoriad yw os ganed eich baban yn farw ar ôl cwblhau rhwng 14 wythnos a 24 wythnos o feichiogrwydd.
- Marw-enedigaeth yw os ganed eich baban yn farw ar ôl cwblhau 24 wythnos o feichiogrwydd.
- Marwolaeth newyddanedig yw os bydd eich baban yn marw yn ystod 28 diwrnod cyntaf bywyd.

## Cynnwys


| | |
|---|---|
| Ar ôl camesgoriad | 2 |
| Ar ôl marw-enedigaeth | 5 |
| Ar ôl marwolaeth newyddanedig | 8 |
| Cysylltiadau defnyddiol | 11 |

# Ar ôl camesgoriad

Yn anffodus, nid oes gennych chi hawl i hawliau na buddion mamolaeth neu dadolaeth os ydych chi wedi cael camesgoriad. Ond mae gennych rai hawliadau a allai eich helpu chi i gymryd amser i ffwrdd i wella.

Os caiff eich babi ei eni'n fyw ond ei fod yn marw, hyd yn oed am gyfnod byr (gan gynnwys cyn 24ain wythnos y beichiogrwydd), mae gennych hawl o hyd i gymorth ariannol (gweler t6).

## Hawliau i famau

Dylai fod gennych hawl i gymryd absenoldeb salwch ar gyfer salwch sy'n gysylltiedig â beichiogrwydd. Mae'n arfer da i'ch cyflogwr gofnodi'r absenoldeb ar wahân i absenoldeb salwch arall, fel nad yw'n cyfrif tuag at eich cofnod salwch. Byddwch dal angen Nodyn Ffitrwydd gan eich meddyg.

Rydych wedi'ch diogelu'n gyfreithiol am bythefnos ar ôl colli eich babi gan fod beichiogrwydd a mamolaeth yn nodwedd warchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae hyn yn golygu os ydych yn cael eich rhoi dan anfantais neu'n cael eich trin yn llai ffafriol fel cyflogai oherwydd salwch cysylltiedig â beichiogrwydd neu amser i ffwrdd cysylltiedig, gallai hyn olygu gwahaniaethu.

Gallwch gymryd mwy na phythefnos o absenoldeb salwch os oes angen cyn belled â bod eich meddyg teulu yn cadarnhau eich bod yn sâl - a'ch bod yn peidio â theimlo dan bwysau i ddychwelyd i'r gwaith nes eich bod yn teimlo'n barod. Serch hynny, os byddwch chi'n cymryd amser hir i ffwrdd yn sâl, fe allai yn y pendraw gael ei gofnodi fel absenoldeb salwch cyffedin.

Mae gennych hawl i'r un budd-daliadau ag unrhyw gyflogai arall sydd i ffwrdd o'r gwaith yn sâl.

Byddwch yn cael o leiaf Tâl Salwch Statudol – fe'i telir am hyd at 28 wythnos. Os ydych chi ar incwm isel mae'n bosibl y gallech hawlio budd-daliadau eraill cysylltiedig ag incwm.

Gallai eich tâl salwch fod yn fwy os yw'ch cytundeb cyflogaeth yn caniatáu hynny.

## Hawliau i dadau a phartneriaid benywaidd

Efallai y bydd gan dadau a phartneriaid benywaidd hawl i absenoldeb salwch a thâl salwch. Telir Tâl Salwch Statudol am gyfnod hyd at 28 wythnos. Gallai hyn fod yn fwy os yw'ch cytundeb cyflogaeth yn caniatáu hynny.

## Cymryd amser i ffwrdd

Fe allech chi fod â hawl cyfreithiol i Amser i Ffwrdd ar gyfer Dibynyddion.

Mae eich hawl i absenoldeb tosturiol yn ddibynnol ar eich contract cyflogaeth a pholisi eich cyflogwr.

Fe allai eich cyflogwr eich talu chi am naill ai Amser i Ffwrdd ar gyfer Dibynyddion neu absenoldeb tosturiol ond nid oes yn rhaid iddo.

Nid oes cyfnod penodol o amser y gallwch ei gymryd. Mae'n bwysig eich bod chi'n siarad â'ch cyflogwr am ei bolisi a'r hyn yr ydych chi'n ei feddwl y gallai fod ei angen arnoch chi.

## Os ydych chi'n hawlio Credyd Cynhwysol

Os ydych chi'n chwilio am waith ac yn cael camesgoriad, dylech chi roi gwybod i'ch hyfforddwr gwaith beth sydd wedi digwydd. Os oes angen amser arnoch i wella, rhaid i chi gael nodyn ffitrwydd gan eich meddyg teulu neu arbenigwr gofal iechyd fel nad yw hyn yn effeithio ar eich ymrwymiad hawlydd.

## Cofrestru (tystysgrifau geni a marwolaeth)

Nid yw'r Cofrestrydd yn darparu tystysgrifau marwolaeth ar gyfer babanod sydd wedi'u camesgor cyn 24 wythnos o feichiogrwydd. Fodd bynnag, mae yna ffyrdd o gofnodi'n ffurfiol bod eich babi wedi'i golli.

Yn Lloegr, gallwch wneud cais am dystysgrif colli babi ar-lein yn GOV.UK. Gweler **gov.uk/request-baby-loss-certificate**

Yn yr Alban, gallwch wneud cais i gofnodi colled eich babi yn y Llyfr Coffa Beichiogrwydd a Cholled Baban Cyn 24 Wythnos. Gweler **gov.scot/publications/certification-pregnancy-baby-loss-prior-24-weeks**

Yng Nghymru a Gogledd Iwerddon , gallwch ofyn a yw'r ysbyty yn rhoi tystysgrif arbennig.

Mae'r dystysgrif hon yn eich galluogi i gofnodi enw'ch babi, dyddiad y golled a rhai manylion eraill efallai. Os nad yw eich ysbyty yn darparu tystysgrifau, gallech chi ddarparu un a gofyn iddynt ei llofnodi.

Mae Sands yn elusen sy'n cynnig gwybodaeth a chymorth emosiynol i unrhyw un y mae marwolaeth babi wedi effeithio arnynt. Gallwch lawrlwytho tystysgrif sampl o'u gwefan *Cysylltiadau defnyddiol* tudalen 36).

Mae cynigion i newid y gyfraith fel y gall parau sy'n mynd trwy gamesgoriad gymryd absenoldeb profedigaeth rhieni. Gwiriwch **GOV.UK** am y wybodaeth ddiweddaraf.

## Oes rhaid cael angladd?

Os byddwch yn camesgor neu'n dod â'ch beichiogrwydd i ben cyn 24 wythnos, nid oes gofyniad cyfreithiol arnoch i gladdu neu amlosgi'r corff yn ffurfiol. Bydd staff yr ysbyty yn egluro i chi beth mae'r ysbyty yn ei gynnig a dylent roi gwybodaeth ysgrifenedig i chi hefyd. Byddant yn rhoi amser i chi ystyried beth yr hoffech ei wneud. Fel arall, gallwch wneud eich trefniadau eich hun ar gyfer angladd a/neu gladdedigaeth neu amlosgiad. Efallai y byddwch am ymgynghori â threfnydd angladdau neu eich arweinydd ffydd eich hun. Gallai tîm caplaniaeth yr ysbyty fod yn ffynhonnell dda o wybodaeth, cyngor a chymorth, p'un a oes gennych chi unrhyw gredoau crefyddol ai peidio.

Mae'r hawl gennych i gladdu corff neu weddillion eich baban eich hunan. Os dymunwch wneud hyn, mae'n bosibl y bydd angen i chi wneud eich dymuniadau yn glir iawn i staff yr ysbyty neu eich Meddyg Teulu oherwydd mae'n bosibl na fyddant yn ymwybodol bod hyn yn gyfreithiol.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â'r Gymdeithas Camesgor neu Sands *(gweler Cysylltiadau Defnyddiol ar dudalen 13).*

Yn anffodus, ni fyddwch yn gymwys i gael cymorth gyda thaliadau costau angladd os colloch eich babi oherwydd camesgoriad.

Fodd bynnag, yn yr Alban, os cafodd eich babi ei eni'n fyw cyn 24 wythnos a'ch bod yn cael budd-daliadau penodol, efallai y gallwch hawlio Taliad Cymorth Angladd. Gweler **mygov.scot/funeral-support-payment/if-the-person-who-died-was-17-or-under**

## Budd-daliadau a hawliau ar ôl camesgoriad

| Cymorth ariannol | A yw hwn ar gael? | Rhagor o wybodaeth* |
|---|---|---|
| **Tâl Salwch Statudol neu Dâl Salwch Contractiol** | Ydy. Telir Tâl Salwch Statudol am gyfnod hyd at 28 wythnos. Gallai hyn fod yn fwy os yw'ch cytundeb cyflogaeth yn caniatáu hynny. Gallai fod angen Nodyn Ffitrwydd, a oedd arfer cael ei alw'n Nodyn Salwch, gan eich meddyg teulu. | Eich cyflogwr |
| **Tâl Mamolaeth Statudol** | Na. | Eich cyflogwr |
| **Lwfans Mamolaeth** | Na, ond mae'n bosibl y byddwch chi'n gallu derbyn Tâl Salwch Statudol gan eich cyflogwr, Lwfans Cyflogaeth a Chefnogaeth neu fudd-daliadau eraill cysylltiedig ag incwm. | Canolfan Byd Gwaith/ Swyddfa Swyddi a Budd-daliadau neu eich cyflogwr |
| **Tâl Tadolaeth Statudol** | Na. | Eich cyflogwr |
| **Talebau bwyd Cychwyn Iach (Best Start Foods yn yr Alban)** | Na, er fe allwch chi ddefnyddio unrhyw dalebau sydd gennych chi'n barod. | Eich bydwraig/ meddyg neu linell gymorth Cychwyn Iach |
| **Grant Mamolaeth Cychwyn Cadarn** | Na. | Canolfan Byd Gwaith/ Swyddfa Swyddi a Budd-daliadau |
| **Presgripsiynau am ddim** | Ydy. Yn Lloegr, os oes gennych Dystysgrif Eithrio Oherwydd Mamolaeth gallwch chi barhau i'w defnyddio ar gyfer presgripsiynau am ddim ar ôl camesgoriad hwyr nes i'r dystysgrif ddod i ben.<br><br>Yn yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon mae presgripsiynau am ddim i bawb.<br><br>Mae hawl i archwiliadau a thriniaeth ddeintyddol am ddim yn amrywio o wlad i wlad. | Eich bydwraig/ meddyg |
| **Budd-dal plant** | Na. | CThEM |
| **Elfen plentyn Credyd Cynhwysol** | Na. | DWP |

** Gweler tudalennau 13 a 14 am fanylion cyswllt.*

# Ar ôl marw-enedigaeth

## Hawliau i famau

Os oedd eich babi yn farw-anedig ar ôl 24 wythnos o feichiogrwydd, efallai y bydd gennych hawl o hyd i ystod o fudd-daliadau a hawliadau mamolaeth. Os nad oes gennych chi hawl i absenoldeb mamolaeth ac nad ydych chi'n barod i ddychwelyd i'r gwaith ar ôl i'ch absenoldeb ddod i ben fe allech chi fod â'r hawl i absenoldeb neu dâl salwch. (gweler y tabl ar dudalen 9).

## Hawliau i dadau a phartneriaid benywaidd

Fe allai tadau a phartneriaid benywaidd dal fod â'r hawl i absenoldeb neu dâl tadolaeth. Os nad oes hawl gennych i absenoldeb tadolaeth neu nad ydych chi'n barod i ddychwelyd i'r gwaith ar ôl i'ch absenoldeb ddod i ben fe allech chi fod â'r hawl i absenoldeb neu dâl salwch. (gweler y tabl ar dudalen 9).

## Absenoldeb Profedigaeth Statudol i Riant

Os ydych chi'n gyflogai, gallwch gymryd pythefnos o absenoldeb statudol os yw'ch babi yn farwanedig. Gallwch gymryd yr absenoldeb hwn ta waeth pa mor hir yr ydych chi wedi bod yn y swydd.

Dysgwch ragor yn **gov.uk/employers-parental-bereavement-pay-leave**

## Cymryd amser i ffwrdd

Rydych wedi'ch diogelu'n gyfreithiol am bythefnos ar ôl colli'ch babi gan fod beichiogrwydd a mamolaeth yn nodwedd warchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae hyn yn golygu os ydych yn cael eich rhoi dan anfantais neu'n cael eich trin yn llai ffafriol fel cyflogai oherwydd beichiogrwydd, salwch cysylltiedig neu amser i ffwrdd cysylltiedig, gallai hyn olygu gwahaniaethu.

Gallwch gymryd mwy na phythefnos o absenoldeb salwch os oes angen cyn belled â bod eich meddyg teulu yn cadarnhau eich bod yn sâl - a'ch bod yn peidio â theimlo dan bwysau i ddychwelyd i'r gwaith nes eich bod yn teimlo'n barod. Mae'n bwysig siarad â'ch cyflogwr am eu polisi ar ba mor hir y gallwch fod i ffwrdd a thrafod yr hyn y gallai fod ei angen arnoch.

## Amser i ffwrdd ar gyfer dibynyddion

Fe allech chi fod â hawl cyfreithiol i Amser i Ffwrdd ar gyfer Dibynyddion. Mae eich hawl i absenoldeb tosturiol yn ddibynnol ar eich contract cyflogaeth a pholisi eich cyflogwr. Fe allai eich cyflogwr eich talu chi am naill ai Amser i Ffwrdd ar gyfer Dibynyddion neu absenoldeb tosturiol ond nid oes yn rhaid iddo.

Nid oes cyfnod penodol o amser y gallwch ei gymryd. Mae'n bwysig eich bod chi'n siarad â'ch cyflogwr am ei bolisi a'r hyn yr ydych chi'n ei feddwl y gallai fod ei angen arnoch chi.

## Os ydych chi'n hawlio Credyd Cynhwysol

Os cewch chi farw-enedigaeth a'ch bod yn chwilio am waith, byddwch chi'n cael eich rhoi yn y grŵp dim gofynion cysylltiedig â gwaith am 15 wythnos yn dilyn dyddiad yr enedigaeth.

Bydd eich hyfforddwr gwaith yn gofyn am gopi o'ch tystysgrif farw-enedigaeth, enw, cyfeiriad a rhif Yswiriant Gwladol. Mae'n bosibl y caiff eich ymrwymiad hawlydd ei adolygu ar ôl 15 wythnos os nad ydych chi'n teimlo'n ddigon iach i ddechrau chwilio am waith eto.

## Cofrestru (tystysgrifau geni a marwolaeth)

Fel arfer yng Nghymru a Lloegr mae'n rhaid cofrestru marw-enedigaeth o fewn 42 diwrnod. Yn yr Alban mae'n rhaid cofrestru marw-enedigaeth o fewn 21 diwrnod. Yng Ngogledd Iwerddon, rhaid cofrestru marw-enedigaeth o fewn blwyddyn. Mewn rhai mannau, gellir cofrestru yn yr ysbyty. Fel arall, gwneir hynny yn y swyddfa gofrestru leol.

## Oes rhaid cael angladd?

Mae'n rhaid claddu neu amlosgi babanod marw-anedig yn ffurfiol, yn ôl y gyfraith. Bydd nifer o ysbytai yn cynnig trefnu angladd i chi yn rhad ac am ddim, neu gallwch wneud eich trefniadau eich hun.

**Taliadau angladd**

Yn Lloegr, gall y 'Children's Funeral Fund' gyfrannu hyd at £300 tuag at gost yr arch, yr amwisg neu'r gasged, yn ogystal â helpu i dalu am ffioedd claddu neu amlosgi, gan gynnwys tystysgrif y meddyg. Nid yw eich incwm na'ch cynilion yn cael eu hystyried. Am fwy o wybodaeth, **gweler gov.uk/child-funeral-costs**

Yng Nghymru, mae cyfraniad o £500 tuag at yr angladd a chostau cysylltiedig eraill fel teyrngedau blodau a phlaciau. Nid yw eich incwm na'ch cynilion yn cael eu hystyried. Darganfyddwch fwy ar **llyw.cymru/costau-angladd-plentyn-chostau-cysylltiedig-eraill-gwybodaeth**

Os ydych chi'n byw yng Nghymru neu Loegr a'ch bod yn cael budd-daliadau penodol, gallwch hefyd wneud cais am hyd at £1,000 o Daliad Costau Angladd i helpu i dalu rhai o'r costau rhesymol eraill.

Yn yr Alban, os ydych yn cael budd-daliadau penodol, gallwch wneud cais am Daliad Cymorth Angladd. Y taliad cyfartalog yw tua £2,065 tuag at unrhyw gostau angladd rhesymol y mae angen i chi dalu amdanynt, megis y gwasanaeth angladd neu gar angladd.

Ond nid oes cost fel arfer i gladdu neu amlsogi babi, plentyn neu berson ifanc 17 oed neu iau, felly efallai y cewch lai na hyn. Gweler **mygov.scot/funeral-support-payment/if-the-person-who-died-was-17-or-under**

Yng Ngogledd Iwerddon, mae'r Gronfa Angladd Plant yn un taliad sengl o £3,056, y gellir ei dalu'n uniongyrchol i'r Trefnwr Angladdau neu i chi, neu ei rannu rhwng y ddau.

Ni fydd eich cyflog neu eich cynilion yn effeithio ar faint a gewch. Nid oes angen i chi fod yn derbyn budd-daliadau i wneud cais. Am y gyfradd ddiweddaraf, gweler **nidirect.gov.uk/articles/child-funeral-fund**

Mae Sands yn elusen sy'n cynnig gwybodaeth a chymorth emosiynol i unrhyw un y mae marwolaeth babi wedi effeithio arno. *(Gweler y Cysylltiadau Defnyddiol ar dudalen 13)*..

## Budd-daliadau a hawliadau ar ôl marw-enedigaeth

| Cymorth ariannol | A yw hwn ar gael? | Rhagor o wybodaeth* |
|---|---|---|
| **Tâl Mamolaeth Statudol** | Mae gennych hawl i absenoldeb o 52 wythnos. Byddwch chi'n derbyn tâl mamolaeth tra byddwch chi o'r gwaith am uchafswm o 39 wythnos (cyhyd â'ch bod chi wedi bod yn gweithio ac yn ennill am yn ddigon hir), ar ffurf Tâl Mamolaeth Statudol neu gynllun eich cyflogwr eich hun. Mae'n rhaid i chi wneud cais o fewn 28 diwrnod i enedigaeth eich baban. | Eich cyflogwr a **gov.uk/maternity-pay-leave** |
| **Absenoldeb a Thâl Profedigaeth Statudol Rhiant** | Os ydych yn gyflogai, mae gennych hawl i ddwy wythnos o absenoldeb os yw eich babi yn farwanedig. Os ydych yn gyflogai neu'n weithiwr, gallai fod gennych hawl i bythefnos o Dâl Profedigaeth Statudol. | Eich cyflogwr neu **gov.uk/employers-parental-bereavement-pay-leave** |
| **Lwfans Mamolaeth** | Mae'n bosibl y bydd gennych chi hawl i Lwfans Mamolaeth os na allwch chi dderbyn Taliad Mamolaeth Statudol. Telir Lwfans Mamolaeth am hyd at 39 wythnos. Rhaid i chi wneud cais o fewn 28 diwrnod i enedigaeth eich babi. | Canolfan Byd Gwaith/ Swyddfa Swyddi a Budd-daliadau neu eich cyflogwr a **gov.uk/maternity-allowance** |
| **Tâl Tadolaeth Statudol** | Os ydych chi'n gyflogedig, fe allech chi fod â'r hawl i dderbyn tâl tadolaeth. Rhaid i chi wneud hawliad o fewn 28 niwrnod i'r enedigaeth. | Eich cyflogwr a **gov.uk/paternity-pay-leave** |
| **Tâl Salwch Statudol neu Dâl Salwch Contractiol** | Ydy, os nad ydych chi ar absenoldeb mamolaeth neu dadolaeth ac yn methu dychwelyd i'r gwaith am resymau meddygol. Telir Tâl Salwch Statudol am gyfnod hyd at 28 wythnos. Gallai hyn fod yn fwy os yw'ch cytundeb cyflogaeth yn caniatáu hynny. Gallai fod angen Nodyn Ffitrwydd, a oedd arfer cael ei alw'n Nodyn Salwch, gan eich meddyg teulu. | Eich cyflogwr |
| **Presgripsiynau a thriniaeth ddeintyddol am ddim** | Ydy, os oes gennych chi Dystysgrif Eithrio Oherwydd Mamolaeth, gallwch ei defnyddio hyd at y dyddiad dod i ben. | Llanwch y ffurflen yn y fferyllfa neu swyddfa''r deintydd neu siaradwch â'ch bydwraig/meddyg |
| **Talebau bwyd Cychwyn Iach (Best Start Foods yn yr Alban)** | Na, er fe allwch chi ddefnyddio unrhyw dalebau sydd gennych chi'n barod. | Eich bydwraig/ meddyg neu linell gymorth Cychwyn Iach |
| **Budd-dal plant** | Na. | CThEM |
| **Credyd Cynhwysol** | Na. | DWP |

** Gweler tudalennau 13 a 14 am fanylion cyswllt.*

# Ar ôl marwolaeth newyddanedig

## Hawliau i famau

Os bydd eich babi yn marw o fewn y 28 diwrnod cyntaf o gael ei eni neu fod eich babi'n cael ei eni'n fyw ond wedi marw, hyd yn oed am gyfnod byr (gan gynnwys cyn 24ain wythnos y beichiogrwydd), efallai y bydd gennych hawl o hyd i ystod o fudd-daliadau a hawliadau mamolaeth. Os nad oes gennych chi hawl i absenoldeb mamolaeth ac nad ydych chi'n barod i ddychwelyd i'r gwaith ar ôl i'ch absenoldeb ddod i ben fe allech chi fod â'r hawl i dâl absenoldeb neu salwch (gweler y tabl ar dudalen 9).

## Hawliau i dadau a phartneriaid benyw

Mae'n bosibl y bydd gan dadau a phartneriaid benyw hawl o hyd i absenoldeb neu dâl tadolaeth. Os nad oes hawl gennych i absenoldeb tadolaeth neu nad ydych chi'n barod i ddychwelyd i'r gwaith ar ôl i'ch absenoldeb ddod i ben fe allech chi fod â'r hawl i absenoldeb neu dâl salwch (gweler y tabl ar dudalen 9).

## Absenoldeb Profedigaeth Statudol i Riant

Os ydych yn gyflogai, gallwch gymryd pythefnos o absenoldeb statudol os bydd eich babi'n marw o fewn yr 28 diwrnod cyntaf o gael ei eni. Gallwch gymryd yr absenoldeb hwn ta waeth pa mor hir yr ydych chi wedi bod yn y swydd.

Dysgwch ragor yn **gov.uk/parental-bereavement-pay-leave**

## Cymryd amser i ffwrdd

Rydych wedi'ch diogelu'n gyfreithiol am bythefnos ar ôl colli'ch babi gan fod beichiogrwydd a mamolaeth yn nodwedd warchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae hyn yn golygu os ydych yn cael eich rhoi dan anfantais neu'n cael eich trin yn llai ffafriol fel cyflogai oherwydd beichiogrwydd, salwch cysylltiedig neu amser i ffwrdd cysylltiedig, gallai hyn olygu gwahaniaethu.

Gallwch gymryd mwy na phythefnos o absenoldeb salwch os oes angen cyn belled â bod eich meddyg teulu yn cadarnhau eich bod yn sâl - a'ch bod yn peidio â theimlo dan bwysau i ddychwelyd i'r gwaith nes eich bod yn teimlo'n barod. Mae'n bwysig siarad â'ch cyflogwr am eu polisi ar ba mor hir y gallwch fod i ffwrdd a thrafod yr hyn y gallai fod ei angen arnoch.

### Amser i ffwrdd ar gyfer dibynyddion

Efallai fod gennych hawl gyfreithiol i amser i ffwrdd ar gyfer dibynyddion (TOFD). Mae eich hawl i absenoldeb tosturiol yn ddibynnol ar eich contract cyflogaeth a pholisi eich cyflogwr. Fe allai eich cyflogwr eich talu chi am naill ai Amser i Ffwrdd ar gyfer Dibynyddion neu absenoldeb tosturiol ond nid oes yn rhaid iddo.

Nid oes cyfnod penodol o amser y gallwch ei gymryd. Mae'n bwysig eich bod chi'n siarad â'ch cyflogwr am ei bolisi a'r hyn yr ydych chi'n ei feddwl y gallai fod ei angen arnoch chi.

## Cofrestru (tystysgrifau genedigaeth a marwolaeth)

Fel arfer rhaid i chi gofrestru marwolaeth eich baban o fewn pum diwrnod yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon (wyth diwrnod yn yr Alban), trwy fynd â'r dystysgrif farwolaeth i'r Gofrestr Genedigaethau a Marwolaethau. Gallwch gofrestru'r enedigaeth ar yr un pryd os nad ydych eisoes wedi gwneud hynny. Bydd y cofrestrydd yn rhoi ffurflen i chi ar gyfer y trefnydd angladdau.

## Oes rhaid cael angladd?

Rhaid i fabanod sy'n cael eu geni'n fyw ac yna'n marw gael ei gladdu neu ei amlosgi'n ffurfiol yn ôl y gyfraith. Bydd rhai ysbytai yn cynnig trefnu angladd i chi lle y gallwch gymryd rhan, neu gallwch wneud eich trefniadau eich hun ar gyfer angladd.

**Taliadau angladd**

Yn Lloegr, gall y 'Children's Funeral Fund' gyfrannu hyd at £300 tuag at gost yr arch, yr amwisg neu'r gasged, yn ogystal â helpu i dalu am ffioedd claddu neu amlosgi, gan gynnwys tystysgrif y meddyg. Nid yw eich incwm na'ch cynilion yn cael eu hystyried. Am fwy o wybodaeth, gweler **gov.uk/child-funeral-costs**

Yng Nghymru, mae cyfraniad o £500 tuag at yr angladd a chostau cysylltiedig eraill fel teyrngedau blodau a phlaciau. Nid yw eich incwm na'ch cynilion yn cael eu hystyried. Darganfyddwch fwy ar **llyw.cymru/costau-angladd-plentyn-chostau-cysylltiedig-eraill-gwybodaeth**

Os ydych chi'n byw yng Nghymru neu Loegr a'ch bod yn cael budd-daliadau penodol, gallwch hefyd wneud cais am hyd at £1,000 o Daliad Costau Angladd i helpu i dalu rhai o'r costau rhesymol eraill.

Yn yr Alban, os ydych yn cael budd-daliadau penodol gallwch wneud cais am Daliad Cymorth Angladd. Y taliad cyfartalog yw £2,065 tuag at unrhyw gostau angladd rhesymol y mae angen i chi dalu amdanynt, megis y gwasanaeth angladd neu gar angladd. Ond fel arfer nid yw'n costio dim i gladdu neu amlosgi babi, plentyn neu berson ifanc 17 oed neu iau, felly gallai eich taliad fod yn llai na hyn. Gweler **mygov.scot/funeral-support-payment/if-the-person-who-died-was-17-or-under**

Yng Ngogledd Iwerddon, mae'r Gronfa Angladd Plant yn un taliad sengl o £3,056, y gellir ei dalu'n uniongyrchol i'r Trefnwr Angladdau neu i chi, neu ei rannu rhwng y ddau.

Ni fydd eich cyflog neu eich cynilion yn effeithio ar faint a gewch. Nid oes angen i chi fod yn derbyn budd-daliadau i wneud cais. Am y gyfradd ddiweddaraf, gweler **nidirect.gov.uk/articles/child-funeral-fund**

## Budd-daliadau a hawliadau ar ôl marwolaeth newyddanedig

| Cymorth ariannol | A yw hwn ar gael? | Rhagor o wybodaeth* |
|---|---|---|
| **Tâl Mamolaeth Statudol** | Mae gennych hawl i absenoldeb o 52 wythnos. Byddwch chi'n derbyn tâl mamolaeth tra byddwch chi o'r gwaith am uchafswm o 39 wythnos (cyhyd â'ch bod chi wedi bod yn gweithio ac yn ennill am yn ddigon hir), ar ffurf Tâl Mamolaeth Statudol neu gynllun eich cyflogwr eich hun. Mae'n rhaid i chi wneud cais o fewn 28 diwrnod i enedigaeth eich baban. | Eich cyflogwr a **gov.uk/maternity-pay-leave** |
| **Absenoldeb a Thâl Profedigaeth Statudol Rhiant** | Os ydych chi'n gyflogai, gallwch gymryd pythefnos o absenoldeb os bydd eich babi'n marw o fewn y 28 diwrnod cyntaf o gael ei eni. Os ydych yn gyflogai neu'n weithiwr, gallai fod gennych hawl i bythefnos o Dâl Profedigaeth Statudol. | Eich cyflogwr neu **gov.uk/parental-bereavement-pay-leave** |
| **Lwfans Mamolaeth** | Mae'n bosibl y bydd gennych chi hawl i Lwfans Mamolaeth os na allwch chi dderbyn Taliad Mamolaeth Statudol. Telir Lwfans Mamolaeth am hyd at 39 wythnos. Mae'n rhaid i chi wneud cais o fewn 28 diwrnod i enedigaeth eich baban. | Canolfan Byd Gwaith/ Swyddfa Swyddi a Budd-daliadau neu eich cyflogwr a **gov.uk/maternity-allowance** |

** Gweler tudalennau 13 a 14 am fanylion cyswllt.*

| Cymorth ariannol | A yw hwn ar gael? | Rhagor o wybodaeth* |
|---|---|---|
| **Tâl Tadolaeth Statudol** | Os ydych yn gyflogedig, mae'n debygol y byddwch yn gymwys i gael tâl tadolaeth. Rhaid i chi wneud hawliad o fewn 28 niwrnod i'r enedigaeth. | Eich cyflogwr a **gov.uk/paternity-pay-leave** |
| **Tâl Salwch Statudol neu Dâl Salwch Contractiol** | Ydy. Os nad ydych ar absenoldeb mamolaeth neu dadolaeth, ac yn methu dychwelyd i'r gwaith am resymau meddygol. Telir Tâl Salwch Statudol am gyfnod hyd at 28 wythnos. Gallai hyn fod yn fwy os yw'ch cytundeb cyflogaeth yn caniatáu hynny. Gallai fod angen Nodyn Ffitrwydd, a oedd arfer cael ei alw'n Nodyn Salwch, gan eich meddyg teulu. | Eich cyflogwr |
| **Presgripsiynau a thriniaeth ddeintyddol am ddim** | Ydy. Os oes gennych Dystysgrif Eithrio Mamolaeth, gallwch ei defnyddio tan y dyddiad terfyn. | Llanwch y ffurflen yn y fferyllfa neu glinig y deintydd |
| **Budd-dal plant** | Gallwch, am y cyfnod o'r enedigaeth hyd at wyth wythnos ar ôl marwolaeth eich baban. Gellir ôl-ddyddio'r taliad am dri mis o ddyddiad derbyn eich hawliad, felly i dderbyn taliad llawn dylech hawlio o fewn tri mis i ddyddiad geni'ch baban. Pan fyddwch yn anfon eich hawliad Budd-dal Plant, atodwch daflen wahanol o bapur gyda dyddiad marwolaeth eich plentyn, eich enw a'ch cyfeiriad, a'ch rhif Yswiriant Gwladol. | CThEM |
| **Credyd Cynhwysol** | Ydy. Byddwch chi'n gallu hawlio'r elfen plentyn o Gredyd Cynhwysol ar gyfer y cyfnod asesu pan ddigwyddodd y farwolaeth ac am y ddau gyfnod asesu canlynol. | DWP |
| **Talebau bwyd Cychwyn Iach (Best Start Foods yn yr Alban)** | Na, er fe allwch chi ddefnyddio unrhyw dalebau sydd gennych chi'n barod. | Eich bydwraig/ meddyg neu linell gymorth Cychwyn Iach |

** Gweler tudalennau 13 a 14 am fanylion cyswllt.*

# Cysylltiadau defnyddiol

### HelpwrArian

Mae HelpwrArian yn annibynnol ac yn cael ei gefnogi gan y llywodraeth i'ch helpu i wneud y gorau o'ch arian. Rydym yn rhoi arweiniad arian a phensiynau diduedd am ddim i bawb ledled y DU – ar-lein a thros y ffôn.

Ymwelwch â ni yn
**moneyhelper.org.uk/cy**

Neu cysylltwch â ni ar:

### Ffôn

Arweiniad ar arian
DU: **0800 138 7777**
os ydych y tu allan i'r DU
**+44 20 3553 2279**
Llun - Gwe 8am i 6pm
Arweiniad ar bensiynau
DU: **0800 011 3797**
os ydych y tu allan i'r DU
**+44 20 7932 5780**
Llun - Gwe 9am i 5pm

### Gwe-sgwrs:

**moneyhelper.org.uk/moneychat**

**moneyhelper.org.uk/cy/pensions-chat**

### WhatsApp

**+44 7701 342744**
(arweiniad ar arian yn unig)

### Cymunedau ar-lein

Ymunwch â'n grwpiau Facebook am gymorth: **moneyhelper.org.uk/cy/blog/everyday-money/come-and-join-our-online-communities**

### Y Gymdeithas Camesgor

Mae'n cynnig cymorth a gwybodaeth am golli beichiogrwydd trwy linell gymorth wedi'i staffio, gwirfoddolwyr cymorth dros y ffôn, grwpiau cymorth ac amrywiaeth o daflenni.

Helpline 01924 200 799
**miscarriageassociation.org.uk**
**E: info@miscarriageassociation.org.uk**

MISCARRIAGE ASSOCIATION
The knowledge to help

### Sands (Yr elusen marw-enedigaeth a marwolaeth newyddanedig)

Mae'n cynnig cymorth a gwybodaeth i rieni ac eraill sydd wedi'u heffeithio gan gamesgoriad hwyr, marw-enedigaeth neu farwolaeth newyddanedig drwy linell gymorth wedi'i staffio, gwefan, grwpiau cymorth ac ystod o daflenni gwybodaeth.

Helpline 0808 164 3332
**sands.org.uk**
**E: helpline@sands.org.uk**

Sands
Stillbirth & neonatal death charity

### Bliss

Mae'n cynnig cymorth a gwybodaeth i rieni babanod cynamserol neu sâl drwy linell gymorth wedi'i staffio, gwefan, grwpiau cymorth ac ystod o daflenni gwybodaeth.
**bliss.org.uk**
**E: hello@bliss.org.uk**

### Tommy’s

Mae’n cynnig cymorth i deuluoedd sydd wedi profi colled babi a genedigaeth gynamserol.
**tommys.org**

### GOV.UK

Mae'n cynnig cyngor ar sut i hawlio budd-daliadau
**gov.uk**

Gwybodaeth yng Ngogledd Iwerddon
**nidirect.gov.uk**

### Cychwyn Iach

0300 330 7010
**healthystart.nhs.uk**

### Bwydydd Dechrau Gorau

0800 182 2222
**mygov.scot/best-start-grant-best-start-foods**

### Y Ganolfan Byd Gwaith

0800 055 6688
**gov.uk/contact-jobcentre-plus**

### Y Swyddfa Swyddi a Budd-daliadau

(Gogledd Iwerddon)
0300 200 7822
**nidirect.gov.uk**

### CThEM

**Budd-dal plant**
0300 200 3100
**gov.uk/child-benefit**

### Llinell Gymorth Credyd Cynhwysol

Os ydych chi angen help gyda’ch hawliad, ffoniwch y llinell gymorth Credyd Cynhwysol am ddim ar:

Ffôn: 0800 328 5644
Ffôn testun: 0800 328 1344

8am – 6pm, Dydd Llun i Ddydd Gwener (ar gau ar wyliau banc a gwyliau cyhoeddus). Mae galwadau am ddim.
**gov.uk/universal-credit/contact-universal-credit**

### Cymorth i Hawlio Cyngor ar Bopeth

Gwasanaeth Cymorth i Hawlio annibynnol a diduedd am ddim os ydych chi’n hawlio Credyd Cynhwysol am y tro cyntaf, neu’n symud i Gredyd Cynhwysol o fudd-daliadau presennol.
**citizensadvice.org.uk/cymraeg/Budd-daliadau/credyd-cynhwysol/hawlio-credyd-cynhwysol/contact-us-about-universal-credit**

Lloegr: 0800 144 8 444

Yr Alban: 0800 023 2581

Cymru: 08000 241 220

Ar gyfer Gogledd Iwerddon, mae Credyd Cynhwysol yn gweithio’n wahanol. Dysgwch ragor yn nidirect - **nidirect.gov.uk/campaigns/universal-credit**

Ffôn testun: 18001 0800 144 8 444

**Defnyddiwch y dudalen hon i gofnodi'ch nodiadau**

Cynhyrchir y canllaw hwn gan HelpwrArian ac mae hefyd ar gael yn Saesneg. I weld yr ystod llawn o ganllawiau sydd ar gael, ac i ofyn am gopïau, ewch i **moneyhelper.org.uk/cy/contact-us/free-printed-guides**

Cymraeg

**Cysylltu â ni**

Arweiniad ar arian **0800 138 7777**
Llun - Gwe 8am i 6pm

Arweiniad ar bensiynau **0800 011 3797**
Llun - Gwe 9am i 5pm

Gwasanaethau trosglwyddo testun
**18001 0800 915 4622**
Llun - Gwe 8am i 6pm

WhatsApp **+44 7701 342744**

Gwefan **moneyhelper.org.uk/cy**

Helpwr Arian

Mae galwadau o'r DU am ddim. Er mwyn ein helpu i gynnal a gwella ein gwasanaeth, efallai y byddwn yn recordio neu fonitro galwadau.

**Fformatau hygyrch**
Os hoffech chi gael y canllaw hwn mewn Braille, print bras neu fformat sain, cysylltwch â ni ar y rhifau uchod. Gwybodaeth yn gywir ar adeg argraffu (Ebrill 2025). Adolygir y canllawiau hyn unwaith y flwyddyn.

© **HelpwrArian** Ebrill 2025
Cyf: LMSAND_Apr25_Ed1_Welsh